Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Mawrth, 23 Mai 2006
Teitl: Ymgyrraedd ymhellach i godi dyheadau

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cadarnhau'n ddiweddar ei hymrwymiad i gyllido'r cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach yng Nghymru am ddwy flwyddyn academaidd arall.

Rhoddwyd £2m o'r neilltu i gyllido'r cynllun yn 2006/07. Mae'r Cynulliad hefyd yn edrych ymlaen at ddarparu £2m arall yn y flwyddyn academaidd 2007/08.

Mae'r cyhoeddiad y bydd y cynllun yn cael ei gefnogi hyd fis Gorffennaf 2008 yn golygu y bydd cyfanswm o dros £11m wedi cael ei fuddsoddi ers i Jane Davidson, Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, gyhoeddi'r cyllid cyntaf ar gyfer *Ymgyrraedd yn Uwch Ymgyrraedd yn Ehangach* ym mis Mawrth 2002.

Mae'r pedair partneriaeth a gyllidir drwy Ymgyrraedd yn Ehangach yn cynnwys prifysgolion, colegau, ysgolion a chyrff eraill yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd i gynnig cyfleoedd dysgu newydd a heriol o fewn cymunedau lleol. Mae digwyddiadau a gynhaliwyd gan y partneriaethau hyn wedi cael eu cydnabod yn genedlaethol.

Cafodd *Prifysgol Haf Cymru* a gynhaliwyd gan **Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gorllewin a Chanolbarth Cymru** ei chydnabod gan Brifysgolion y DU ym mis Rhagfyr 2005 fel 'menter ehangu mynediad arloesol a llwyddiannus'. Yng nghynhadledd Ymgyrraedd yn Ehangach 2006, a gynhaliwyd ar 6 Ebrill, siaradodd

Debbie Davies am yr amser a dreuliodd fel myfyriwr ac fel arweinydd yn y Brifysgol Haf:

'Mae'r profiad o fod yn fyfyriwr ac arweinydd yn y Brifysgol Haf wedi codi fy hunanhyder yn aruthrol. Hyn sydd wedi fy arwain at ddewis dysgu fel gyrfa, gan fy mod i'n gwybod y gall cael addysg dda dan arweiniad pobl sydd â gwir ddiddordeb yn eich llwyddiant wneud cymaint o wahaniaeth.'

Mae digwyddiadau *Anelu am Addysg Goleg* a gynhelir gan **Bartneriaeth De Orllewin Cymru** yn annog disgyblion lleol i ddarganfod rhagor am fywyd myfyrwyr, y gwahanol lwybrau i brifysgol a choleg, a'r amrywiaeth o gyrsiau sydd ar gael. Dywedodd Jane Jones, y Cydgysylltydd Cyfnod Allweddol 3 yn Ysgol Bishop Gore, fod y diwrnod *Anelu am Addysg Goleg* a fynychwyd ganddi hi a'i disgyblion yn un o'r 'teithiau ysgol gorau' yr oeddynt wedi'i gael. Hyd yma mae dros 2,000 o ddisgyblion o 21 o wahanol ysgolion yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau o'r fath.

Bydd **Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd Cymru** yn lansio ei *rhaglen mentora* yn Eisteddfod yr Urdd ar 29 Mai 2006. Nod y rhaglen yw codi dyheadau disgyblion Cymraeg eu hiaith, gan eu hannog i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol neu'r coleg. Daw'r mentoriaid hŷn yn gynghorwyr ac yn fodelau rôl cadarnhaol i'r disgyblion ifanc.

Mae **Partneriaeth De Ddwyrain Cymru (First Campus)** yn rhagbrofi rhaglen *Gweithredu ar Wyddoniaeth* a fydd yn cael ei hymestyn ar draws Cymru yn yr hydref. Nod y rhaglen hon yw codi ymwybyddiaeth o fathemateg, gwyddoniaeth a phynciau'n gysylltiedig ag iechyd yng Nghyfnod Allweddol 3 ac uwch mewn ysgolion ac ymysg grwpiau cymunedol drwy Gymru. Mae'n annog y disgyblion i ystyried gwneud cais i astudio pynciau gwyddonol mewn prifysgolion a cholegau.

Wrth siarad yng Nghynhadledd Genedlaethol Ymgyrraedd yn Ehangach 2006, dywedodd Christine Chapman, y Dirprwy Weinidog dros Addysg sydd â chyfrifoldeb dros Addysg 14-19:

'Mae pawb sy'n gweithio ym myd addysg yn cydnabod bod y Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn chwarae rhan allweddol yn agenda ehangu mynediad a chyfle cyfartal Llywodraeth y Cynulliad ar hyd a lled Cymru.'

Meddai'r Athro Phil Gummett, Prif Weithredwr CCAUC:

‘Mae’r Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach wedi datblygu amrywiaeth fawr o weithgareddau arloesol i ysbrydoli pobl o bob oedran i wella eu sgiliau a gwneud cais i ddilyn cwrs addysg uwch. Mae ymrwymiad y Cynulliad i gefnogi Ymgyrraedd yn Ehangach am ddwy flynedd arall yn deyrnged i lwyddiant y fenter ac mae’n sicrhau y bydd y pedair Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach yng Nghymru yn gallu parhau â’u gwaith.’

Cynllun ehangu mynediad tymor-hir a reolir gan CCAUC yw Ymgyrraedd yn Ehangach. Ei nod yw gwella medrau dysgu a hybu dyheadau addysgol er mwyn galluogi mwy o ddisgyblion ysgol ac oedolion i astudio mewn prifysgolion a cholegau. Mae’n cynnig amrywiaeth helaeth o raglenni arloesol i’w helpu i ddysgu sgiliau newydd ac astudio â hyder. Cynhelir cannoedd o ddigwyddiadau bob blwyddyn drwy Gymru gyfan, mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a chymunedau lleol.

Diwedd.

Cysylltiadau i’r cyfryngau

Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebiadau - 029 2068 2225.
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol - 029 2068 2280.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Ymgyrraedd yn Ehangach, cysylltwch ag Emma King, Swyddog Cenedlaethol Ymgyrraedd yn Ehangach, ar 029 2068 2201 neu yn emma.king@hefcw.ac.uk.

Nodiadau i Olygyddion

1. Cefndir - CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe’i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae’r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu’r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a’r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

3. Colegau Addysg Bellach

Mae CCAUC yn cyllido peth darpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol mewn Colegau Addysg Bellach. Mae'r arian a dderbyniant ar gyfer eu darpariaeth AU yn gyfran fach iawn yn unig o incwm y CABau. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol ar gyfer y sefydliadau hyn. Am y rheswm hwn, nid yw'r Cyngor erioed wedi ceisio cymedroli'r canlyniad cyllido (drwy ymgodi i CMC (*GDP*)) ar gyfer y sefydliadau hyn yn nhermau eu darpariaeth addysg uwch. Mae hyn yn golygu y gall cyllid blwyddyn-ar-flwyddyn ar gyfer darpariaeth addysg uwch mewn CABau amrywio cryn dipyn gan ddibynnu ar nifer y myfyrwyr a recriwtiant.